CARDIFF
CAERDYDD

# Trefniadau Derbyniadau Ysgol Uwchradd Cydgysylltiedig 2018-2020

## Dogfen Ymgynghori 2016

**System decach, fwy cyfiawn o ddyrannu lleoedd mewn ysgolion yng Nghaerdydd**

Cyfnod ymgynghori:
**5 Rhagfyr 2016 – 23 Ionawr 2017**

Gellir cael y ddogfen hon mewn Braille.
Mae gwybodaeth hefyd ar gael mewn ieithoedd cymunedol eraill os bydd angen..
Cysylltwch â ni ar 029 2087 2720 i drefnu hyn.

**Cynnwys**


1. Cyflwyniad
2. Beth yw'r Cynnig?
3. Mae eich Barn yn Bwysig
4. Esboniad o'r Acronymau a'r Termau a Ddefnyddir
5. Cefndir y Cynnig
6. Derbyniadau Ysgol
7. Beth yw'r Trefniadau Presennol a Materion gyda'r System Dyraniadau Presennol?
8. Pam y Cynigir y Newid?
9. Beth yw Manteision y Cynnig?
10. Beth yw Anfanteision y Cynnig?
11. Os nad oes dim yn newid, beth fydd yn digwydd?
12. Os gweithredir y cynnig, sut fyddai hyn yn effeithio ar ysgolion?
13. Beth yw'r Trefniadau Arfaethedig a sut fyddent yn gweithio?
14. Ansawdd a Safonau
15. Sut fyddai'r ddarpariaeth AAA a SYI yn cael eu heffeithio?
16. Trefniadau Derbyn a Dalgylchoedd
17. Materion Ariannol
18. Materion Adnoddau Dynol
19. Materion Cludiant
20. Trefniadau Teithio i Ddysgwyr
21. Effaith y Cynnig ar yr Iaith Gymraeg
22. Materion Cydraddoldeb
23. Ystyried Effaith ar y Gymuned
24. Cwestiynau Cyffredin
25. Beth sy'n Digwydd Nesaf?
26. Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad

## Cyflwyniad:

Mae'r ymgynghoriad hwn yn gyfle i bobl ddysgu am y bwriad i gyflwyno trefniadau derbyn ysgolion uwchradd cydgysylltiedig i Gaerdydd. Mae'n gyfle i chi ofyn cwestiynau a gwneud sylwadau a gaiff eu hystyried pan fydd y Cyngor yn penderfynu sut i symud ymlaen.

## Beth yw’r Cynnig?

Y cynnig yw:

- i dreialu gweithredu'r broses derbyniadau ysgolion uwchradd cydgysylltiedig i grŵp oedran Blwyddyn 7 ar gyfer y cymeriant ym Medi 2018, Medi 2019 a Medi 2020

Ni fyddai’r cynnig i dreialu system dderbyn gydlynol yn diddymu hawliau Awdurdodau Derbyn i reoli eu derbyniadau eu hunain ac felly ni fyddant yn gallu rheoli pa blant sy’n cael lle yn eu hysgolion hwy. Ni fyddai’n cael unrhyw effaith ar y polisïau derbyn sy’n cael eu gweithredu ar hyn o bryd gan y gwahanol awdurdodau derbyn, nac yn gorfodi unrhyw newid o ran llywodraethu ysgolion.

Mae’r trefniadau derbyniadau ysgol uwchradd cydgysylltiedig i’w cadw dan adolygiad. Yn destun i benderfyniad i wneud y trefniadau’n barhaol, cynhelir ymgynghoriad pellach. Pe byddai penderfyniad yn cael ei wneud i beidio â gwneud y trefniadau derbyniadau ysgol uwchradd cydgysylltiedig yn rhai parhaol, byddai’r trefniadau presennol yn parhau.

## Mae eich Barn yn Bwysig:

Mae eich barn yn bwysig i ni, ac rydym am i chi ddweud wrthym beth yw eich barn am y cynnig. Gallwch wneud hyn drwy:

- fynychu un o'r sesiynau galw heibio:

| **Dyddiad/Amser** | **Lleoliad** |
|---|---|
| **Dydd Mawrth, 13 Rhagfyr 2016 9:00am – 11:00am** | **Canolfan Hamdden Llanisien** |
| **Dydd Mawrth, 10 Ionawr 2017 4:00pm – 6:00pm** | **Hyb Grangetown** |
| **Dydd Mercher, 11 Ionawr 2017 4:00pm – 6:00pm** | **Hyb Llanrhymni** |
| **Dydd Iau, 12 Ionawr 2017 4:00pm – 6:00pm** | **Hyb y Tyllgoed** |
| **Dydd Mawrth, 17 Ionawr 2017 4:00pm – 6:00pm** | **Hyb y Llyfrgell Ganolog** |

- cwblhau’r ffurflen ymateb ar-lein yn www.caerdydd.gov.uk/trefniadauderbyn neu
- gysylltu â'r Tîm Cynllunio Trefniadaeth Ysgolion ar (029) 2087 2720, drwy e-bost i ymatebionysgol@caerdydd.gov.uk neu drwy’r post i Ystafell 422, Neuadd y Sir, Glanfa Iwerydd, Caerdydd, CF10 4UW.

Y dyddiad cau ar gyfer ymatebion i’r ymgynghoriad hwn yw **23 Ionawr 2017**. Yn anffodus, ni fydd ymatebion a dderbynnir ar ôl y dyddiad hwn yn cael eu hystyried gan y Cyngor.

## **Esboniad o'r Acronymau a'r Termau a Ddefnyddir:**

**Awdurdod Derbyn** - Y corff sy'n gyfrifol am osod a chymhwyso trefniadau derbyn yr ysgol.

**Fforwm Derbyn** - Corff statudol lleol sy'n gyfrifol am gydlynu effeithiolrwydd a thegwch y trefniadau derbyn lleol. Mae'r Fforwm yn cynnwys cynrychiolwyr o awdurdodau derbyn ac ysgolion, esgobaethau, y gymuned leol a rhieni lywodraethwyr.

**Cyrff Llywodraethu** - Mae'r corff yn gorfforaethol gyfrifol am gynnal ysgolion gyda golwg ar hyrwyddo safonau uchel o gyflawniad addysgol; drwy osod cyfeiriad strategol, a sicrhau atebolrwydd, monitro a gwerthuso.

**Ysgolion Cymunedol** - ysgol gynradd neu ysgol uwchradd a gynhelir, lle mai'r Awdurdod Lleol sydd â'r cyfrifoldeb dros staffio, adeiladau, a derbyniadau ysgol.

**Ysgolion Sefydledig a Gwirfoddol a Gynorthwyir** – ysgol gynradd neu uwchradd a gynhelir lle mae gan gorff llywodraethu'r ysgol gyfrifoldebau staffio, safle a derbyn.

**Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb** (AEG) - proses gynllunio i sicrhau nad yw polisi, project neu gynllun yn gwahaniaethu yn erbyn unrhyw bobl sydd dan anfantais neu'n agored i niwed.

**EyNg** – Yr Eglwys yng Nghymru

**SIY** – Saesneg fel Iaith Ychwanegol

**YU** – Ysgol Uwchradd

**AAA** - Anghenion Addysgol Arbennig

## Cefndir y Cynnig:

Cyflwynwyd trefniadau derbyn cydgysylltiedig yn Lloegr o dan amodau Rheoliadau Derbyniadau Ysgol (Cydlynu Trefniadau Derbyn) (Lloegr) 2007.

Ar hyn o bryd nid oes unrhyw drefniadau derbyn cydgysylltiedig ffurfiol yng Nghymru er gwaethaf y ffaith y cydnabyddir yr heriau o weithredu trefniadau effeithiol ar gyfer derbyniadau yng Nghaerdydd sydd â 30 o awdurdodau derbyn.

## Derbyniadau Ysgol:

Mae'r Awdurdodau Derbyn yng Nghaerdydd yn ymrwymedig i gyfleoedd cyfartal ac i ddileu gwahaniaethu anghyfreithlon. O ran derbyniadau i ysgolion, mae'r holl ddisgyblion a darpar ddisgyblion yn cael eu trin yn deg, waeth beth fo'u rhyw, hil, ethnigrwydd, diwylliant, cenedl, iaith, gallu/anabledd neu gred grefyddol. Fodd bynnag, mae llawer o eithriadau ar gyfer ysgolion crefyddol. Cymerir camau i sicrhau nad yw gweithdrefnau derbyn yn rhoi mantais annheg nac anfantais i unrhyw grwpiau, drwy ddefnyddio rheolau neu amodau na ellir cydymffurfio â hwy'n gyfartal gan bawb.

## Beth yw'r Trefniadau Presennol a Materion gyda'r System Dyraniadau Presennol?

Ar hyn o bryd, mae rhieni yn gwneud cais i'w plentyn drosglwyddo o addysg gynradd i addysg uwchradd trwy gyflwyno ffurflen derbyn i ysgol i Awdurdodau Derbyn yr ysgolion a ffefrir ganddynt. Mae rhieni sy'n gwneud cais ar gyfer ysgol gymunedol yn gallu cwblhau a chyflwyno eu cais ar-lein, tra bod rhieni sy'n gwneud cais i ysgolion eraill yn cwblhau a chyflwyno ffurflen gais ar bapur.

Yn dilyn ystyriaeth gan Awdurdodau Derbyn pob ysgol a ddewiswyd, bydd rhieni yn derbyn canlyniad eu cais gan bob Awdurdod Derbyn.

Tra bod rhieni yn hysbysu'r Cyngor o ba ysgol gymunedol yw eu dewis(iadau) a ffefrir, nid yw'n ofynnol iddynt gadarnhau pa ysgol gymunedol, ysgol wirfoddol a gynorthwyir neu ysgol sefydledig yw eu hoff ddewis. O ganlyniad, gallai rhieni gael cynnig lle i'w plentyn mewn mwy nag un ysgol.

O ganlyniad, mae ansicrwydd ynghylch pa ddisgyblion fydd yn dechrau ym mha ysgol oherwydd nad yw trefn dewisiadau ysgol rhieni yn eglur ar adeg y cais:

- Mae Ysgolion Gwirfoddol a Gynorthwyir ac Ysgolion Sefydledig yn rhoi gwybod i'r Cyngor am eu penderfyniadau derbyn erbyn dyddiad y cytunwyd arno gan Fforwm Derbyn Caerdydd, ond nid oes modd i'r Cyngor ddefnyddio'r wybodaeth i ailddyrannu llefydd mewn ysgolion cymunedol cyn y dyddiad cynnig, oherwydd nid yw Awdurdodau Derbyn yn ymwybodol o drefn dewisiadau'r rhieni.

- Ni all y Cyngor ddarparu gwybodaeth ddwyochrog i Gyrff Llywodraethu ynghylch dyrannu lleoedd mewn ysgolion cymunedol o dan y trefniadau presennol oherwydd cyfyngiadau'r Ddeddf Diogelu Data. Ar ben hynny, byddai'n rhaid anfon rhestrau dyrannu ar gyfer pob ysgol, sydd yn anymarferol.

Mae Awdurdodau Derbyn yn parhau i weinyddu'r rhestrau aros statudol a threfnu gwrandawiadau apêl statudol, llawer ohonynt yn cymryd llawer o amser, yn gostus ac yn ddiangen i rieni.

Dengys Tabl 1 isod y nifer o apeliadau Blwyddyn 7 a aeth ymlaen i Wrandawiad Apêl Derbyniadau Ysgol Annibynnol ar gyfer cymeriant Medi 2016. Yn seiliedig ar gyfrifiadau achosion yn erbyn yr Awdurdod Lleol, amcangyfrifir bod pob apêl yn costio tua £650 a 9 awr o amser swyddogion.

**Tabl 1: Nifer y Gwrandawiadau Apêl ar gyfer Derbyn i Flwyddyn 7 ym mis Medi 2016**

| Ysgol | Nifer Apeliadau Blwyddyn 7 |
|---|---|
| Ysgolion Cymunedol | 100 |
| YU EyNg Teilo Sant | 42 |
| YU EyNg Esgob Llandaf | 32 |
| YU Gatholig St Illtyd | 18 |
| YU Gatholig Corpus Christi | 16 |
| YU yr Eglwys Newydd | 15 |
| YU Gatholig y Fair Ddihalog | 11 |
| **Cyfanswm** | **234** |

## Pam y Cynigir y Newid?

Mae rhai rhieni sy'n gwneud cais i'w plentyn gael ei dderbyn i addysg uwchradd wedi cael cynnig lleoedd mewn ysgolion lluosog, tra bod rhieni eraill wedi bod yn aflwyddiannus wrth sicrhau lle i'w plentyn yn unrhyw un o'u dewisiadau ysgol.

Yn seiliedig ar y dyraniad cychwynnol ar gyfer trosglwyddo i Flwyddyn 7 ym mis Medi 2016, roedd cyfanswm o 192 o blant yn dal cyfanswm o 397 o leoedd. Mae hynny'n golygu bod 192 o deuluoedd yn dal 205 o leoedd nad oeddent yn bwriadu eu defnyddio, ac felly'n atal eu dyrannu i eraill. Ar yr un pryd ni dderbyniodd 360 o blant eraill unrhyw gynnig.

Felly roedd llawer o deuluoedd yn methu â chael eu dewisiadau uwch, neu ni chawsant gynnig unrhyw le o gwbl.

Dengys Tabl 2 isod nifer yr ymgeiswyr llwyddiannus fesul ysgol, y cynigiwyd iddynt hefyd un neu fwy o leoedd ysgol ychwanegol yn rhywle arall:

**<u>Tabl 2</u> <u>Nifer yr ymgeiswyr Blwyddyn 7 llwyddiannus</u>**
**<u>a dderbyniodd o leiaf 2 gynnig lle ysgol (1 fesul Awdurdod Derbyn)</u>**

<table>
<tr><td rowspan="7">Awdurdod Derbyn</td><td rowspan="6">Corff Llywodraethu</td><td>YU EyNg Esgob Llandaf</td><td>52</td></tr>
<tr><td>Ysgol Uwchradd Gatholig Corpus Christi</td><td>53</td></tr>
<tr><td>Ysgol Uwchradd Gatholig y Fair Ddihalog</td><td>27</td></tr>
<tr><td>YU Gatholig St Illtyd</td><td>35</td></tr>
<tr><td>YU EyNg Teilo Sant</td><td>22</td></tr>
<tr><td>Ysgol Uwchradd yr Eglwys Newydd</td><td>47</td></tr>
<tr><td>Awdurdod Lleol</td><td>Ysgolion Cymunedol</td><td>161</td></tr>
<tr><td colspan="3">Cyfanswm y Cynigion:</td><td>397</td></tr>
</table>

Mae rhai rhieni yn dewis 'dal' y cynnig am fwy nag un ysgol, gan atal plant eraill rhag cael cynnig y lleoedd hyn, sy'n achosi straen gormodol ar deuluoedd ond hefyd anawsterau i ysgolion cynradd ac uwchradd wrth iddynt gynllunio ar gyfer trosglwyddiad y plant

**Byddai proses trefniadau derbyniadau ysgol uwchradd cydgysylltiedig yn rhoi lle unigol i'w plentyn i fwy o rieni, a fyddai'n system decach, fwy cyfiawn o ddyrannu lleoedd mewn ysgolion yng Nghaerdydd. Byddai plant yn cael profiad gwell a dechrau mwy effeithiol i'w haddysg ysgol uwchradd.**

## <u>Beth yw Manteision y Cynnig?</u>

Nod y Cyngor yw cynnig proses dderbyn gydgysylltiedig gyda'r sectorau gwirfoddol a gynorthwyir ac ysgolion sefydledig, sy'n rhoi darlun clir i rieni/ gofalwyr o'r dewis lleoedd mewn ysgol sydd ar gael iddynt a'r tebygolrwydd o sicrhau eu dewisiadau cyntaf. Byddai'r cynnig hwn yn cyfrannu tuag at y nod hwn.

Disgwylir y manteision canlynol pe gweithredid y cynnig hwn:

- Byddai mwy o ddisgyblion yn sicrhau lle mewn ysgol o'u dewis;
- Byddai mwy o ddisgyblion yn mwynhau tawelwch meddwl ar ôl iddynt sicrhau lle mewn ysgol uwchradd;
- Byddai mwy o rieni/gwarcheidwaid/gofalwyr yn gallu cynllunio ymrwymiadau gwaith a gofal plant yn llawer cynharach;
- Byddai angen i lai o bobl boeni fod eu plentyn ar restrau aros ysgolion lluosog;
- Byddai angen i lai o deuluoedd gyflwyno ceisiadau derbyn pellach neu ymgymryd â'r broses Apêl Annibynnol, a
- Byddai plant sy'n mynd i Ysgol Uwchradd am y tro cyntaf yn cael gwell profiad oherwydd gallai'r staff facsimeiddio effeithlonrwydd y broses dderbyn i roi cychwyn mwy effeithiol i blant, gan eu galluogi i wireddu eu potensial llawn yn gynharach.

## Beth yw Anfanteision y Cynnig?

Mae'r system bresennol yn caniatáu i rieni wneud cais i Awdurdodau Derbyn lluosog gyda photensial y bydd eu plentyn yn cael cynnig lleoedd ysgol lluosog. Mae'r system hon yn darparu cam penderfynu pellach i deuluoedd sy'n gwneud cais ac yn sicrhau cynigion ar gyfer mwy nag un ysgol, pryd y gallant ddewis ba gynnig ysgol i'w dderbyn.

Byddai gweithredu system trefniadau derbyn cydlynol ar gyfer ysgolion uwchradd rhwng yr holl Ysgolion Cymunedol, Sefydledig a Gwirfoddol a Gynorthwyir yn lleihau nifer y cynigion ysgol i un. Byddai mwy o ddisgyblion yn elwa o hyn drwy gael cynnig lle yn eu hysgol ddewisol o ganlyniad. Gall lleiafrif o rieni deimlo dan anfantais o'r herwydd, er y byddent yn dal i fod â hawl i'w dewis fel rhieni a'r cyfle i osod trefn restrol ar eu dewisiadau ysgol.

## Os nad oes dim yn newid, beth fydd yn digwydd?

Byddai cadw'r trefniadau presennol yn cynyddu'r aneffeithlonrwydd yn y system ddyrannu disgyblion gyfredol. Byddai llawer o ddisgyblion yn derbyn cynigion lleoedd lluosog tra bod eraill efallai yn cael cynigion is, neu ddim o gwbl.

Byddai parhau â hyn yn golygu na fyddai modd i Awdurdodau Derbyn ddyrannu mwy nag un lle i blant yn y rownd ddyrannu gychwynnol.

## Os gweithredir y cynnig, sut fyddai hyn yn effeithio ar ysgolion?

Nid yw'r cynnig, sy'n caniatáu i rieni fynegi eu dewis ysgol gymunedol/ ysgol wirfoddol a gynorthwyir / ysgol sefydledig ar Ffurflen Gais Gyffredin, yn cael unrhyw effaith ar bolisi derbyn i ysgol nac yn gorfodi unrhyw newid o ran llywodraethu.

Felly rhagwelir na fyddai'r trefniadau derbyn ysgolion uwchradd cydgysylltiedig a gynigir yn cael fawr ddim effaith, neu ddim effaith o gwbl, ar y nifer o ddisgyblion a fydd ar y gofrestr mewn ysgolion cymunedol/ gwirfoddol a gynorthwyir/ sefydledig cyfrwng Saesneg nac ysgolion cymunedol cyfrwng Cymraeg yn y ddinas.

Barn y Cyngor yw y byddai'r cynnig hwn yn cynorthwyo ysgolion i gynllunio eu cyllidebau, trefniadaeth dosbarthiadau a threfniadau staffio, gan y byddai bob ysgol â syniad cliriach o ba ddisgyblion y byddent yn eu derbyn.

## Beth yw'r Trefniadau Arfaethedig a sut fyddent yn gweithio?

Byddai derbyniadau ysgolion uwchradd cydgysylltiedig ar gyfer grŵp oedran Blwyddyn 7 yn dilyn yr amserlen a amlinellir isod (ar gyfer cymeriant Medi 2018):

**Hydref 2017 – Dydd Llun, 4 Rhagfyr 2017**

- Byddai rhieni yn cwblhau Ffurflen Gais Gyffredin a byddent yn mynegi hyd at dri dewis ar gyfer Ysgolion Cymunedol a/neu Wirfoddol a Gynorthwyir a/neu Sefydledig.
- Byddai rhieni sy'n gwneud cais am Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyir neu Sefydledig hefyd yn cwblhau ffurflen gais atodol ar gyfer yr ysgol unigol, a ddychwelir yn uniongyrchol i Gorff Llywodraethu'r ysgol ynghyd â geirdaon; tystiolaeth ddogfennol ac unrhyw wybodaeth arall sy'n ofynnol.

**Dydd Llun, 4 Rhagfyr 2017**

- Dyddiad cau ar gyfer cyflwyno'r Ffurflen Gais Gyffredinol.

**Rhagfyr 2017 – Chwefror 2018**

- Yr ysgolion Gwirfoddol a Gynorthwyir a'r ysgol Sefydledig yn penderfynu pa ymgeiswyr sy'n gymwys ar gyfer eu meini prawf derbyn trwy restru **pob** ymgeisydd yn unol â hynny, gan gadarnhau eu penderfyniadau ar ôl blaenoriaethu eu rhestr o ymgeiswyr a manylion ynghylch sail derbyn pob disgybl.
- Yna byddai'r Gronfa Ddata Derbyniadau Canolog yn dyrannu lle mewn ysgol unigol yn ôl y dewis uchaf y mae'r plentyn yn gymwys i gael ei dderbyn.

**Dydd Iau, 1 Mawrth 2018**

- Mae cynnig unigol neu hysbysiad yn gwrthod pob dewis, yn cael ei gyfleu i'r rhieni gan y Cyngor ar ran yr Awdurdodau Derbyniadau.
- Gwneir y penderfyniadau ar gael ar-lein a'u postio (os oes angen) gyda Dosbarth 1af ar Ddydd Iau, 1 Mawrth 2018.

**Dydd Gwener, 16 Mawrth 2018**

- Mae rhieni yn ymateb i'r Cyngor ynglŷn â'r cynnig o le mewn ysgol neu benderfyniad i wrthod pob dewis; mae'r ymatebion hyn ar gael i'r ysgolion.
- Yn achos rhieni sydd heb ymateb i'r cynnig o le mewn ysgol erbyn y dyddiad hwn, tynnir y cynnig yn ôl, i'w ailddyrannu i ddisgybl arall.

## Rhagor o Wybodaeth

## Ansawdd a Safonau:

Mae gan y Cyngor bolisïau yn eu lle i gefnogi gwella ysgolion e.e. 'Cyrhaeddiad Uchel i Bawb' a 'Chyflawniad gyfer Cynhwysiant.' Mae'n gweithio i ymateb i egwyddorion allweddol y 'Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion' er mwyn sicrhau gwell canlyniadau dysgu a lles i bob plentyn.

Ni ragwelir y bydd unrhyw effaith negyddol ar ansawdd safonau addysg nac ar gyflenwi cwricwla Cyfnod Allweddol 3 ac uwch o ganlyniad i'r cynnig hwn.

Byddai'r Cyngor yn parhau i weithio gydag arweinyddiaeth pob ysgol i barhau i sicrhau dull ysgol gyfan trylwyr i gynllunio gwelliannau a sicrhau perthynas dda gyda rhieni a phartneriaid eraill er mwyn sicrhau bod y disgyblion yn derbyn addysg o ansawdd uchel.

Rhagwelir na fydd fawr o risg, neu ddim risg o gwbl, o darfu neu aflonyddu ar arweinyddiaeth a llywodraethu a allai effeithio ar ganlyniadau addysgol.

## Sut fyddai’r ddarpariaeth AAA a SYI yn cael eu heffeithio?

Mae gan blentyn anghenion addysgol arbennig (AAA) os oes ganddo anhawster dysgu sy'n gofyn am ddarpariaeth addysgol arbennig. Mae anhawster dysgu yn golygu bod y plentyn yn cael llawer mwy o anhawster dysgu na'r rhan fwyaf o blant o'r un oed neu fod gan y plentyn anabledd y mae angen cyfleusterau addysgol gwahanol ar ei gyfer i’r rhai y mae'r ysgol yn darparu’n gyffredinol i blant.

Mae ysgolion yng Nghaerdydd yn derbyn cyllid dirprwyedig i'w galluogi i roi cymorth ychwanegol ac ymyriadau â ffocws i ddisgyblion sydd ag AAA.

Nid oes unrhyw wybodaeth ar gael sy'n awgrymu y byddai'r cynigion yn cael effaith negyddol ar ddarpariaeth AAA yn yr ysgolion, a byddai'r ysgolion yn parhau i ddarparu cymorth AAA i ddisgyblion sy'n briodol i lefel yr angen.

Hefyd nid oes gwybodaeth ar gael sy'n awgrymu y byddai'r cynigion yn cael effaith negyddol ar y ddarpariaeth i unrhyw grŵp, gan gynnwys y rhai sydd o grwpiau lleiafrifol ethnig neu sy'n derbyn Prydau Ysgol am Ddim, a byddai'r ysgolion yn parhau i ddarparu cefnogaeth briodol i anghenion unigol pob disgybl.

## Trefniadau Derbyn a Dalgylchoedd:

Nid oes unrhyw newidiadau arfaethedig i'r dalgylchoedd fel rhan o'r cynnig hwn.

Nid oes unrhyw gynlluniau i newid polisi unrhyw Awdurdod Derbyn (meini prawf gordanysgrifio) ar dderbyn plant i ysgolion o ganlyniad i'r cynnig hwn.

Ceir gwybodaeth fanwl am y trefniadau derbyn yn llyfryn Derbyn i Ysgolion y Cyngor, y gellir ei lwytho i lawr o wefan y Cyngor (www.caerdydd.gov.uk).

## Materion Ariannol:

Barn y Cyngor yw y bydd ysgolion yn gallu cynllunio cyllidebau eu hysgol ar gyfer blynyddoedd academaidd sydd i ddod, oherwydd y bydd ganddynt syniad cliriach o'r disgyblion y byddant yn eu derbyn. Hefyd mae'r Awdurdod Lleol o'r farn, o ganlyniad i weithredu'r cynnig hwn, y byddai llai o Wrandawiadau Apêl Derbyniadau Ysgolion Annibynnol na phetai'r trefniadau ddim yn cael eu gweithredu, gan arbed tua £650 am bob achos.

## Materion Adnoddau Dynol:

Barn y Cyngor yw bod y cynnig hwn yn annhebygol o effeithio ar staffio ysgolion. Byddai arferion gwaith yn newid, nid lleihau.

## Materion Cludiant:

Barn y Cyngor yw bod y cynnig hwn yn annhebygol o gael effaith ar gludiant gan nad yw'n ymwneud ag unrhyw newid o ran cyflenwad o leoedd mewn ysgolion nac unrhyw newid i ddalgylchoedd ysgolion.

## Trefniadau Teithio i Ddysgwyr:

O dan y cynigion hyn, nid oes unrhyw gynlluniau i newid polisi'r Cyngor ar gludo plant yn ôl ac ymlaen i ysgolion. Gellir gweld polisi cludiant y Cyngor i blant ysgol ar wefan y Cyngor (www.caerdydd.gov.uk).

## Effaith y Cynnig ar yr Iaith Gymraeg:

Ni ragwelir y bydd unrhyw effaith wahaniaethol ar yr Iaith Gymraeg o ganlyniad i'r cynnig hwn.

Mae addysgu y Gymraeg o fewn lleoliad cyfrwng Saesneg yn destun i ofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol. Ni fyddai hyn yn newid.

Nid yw'r cynnig hwn yn ceisio newid yn nifer y lleoedd ysgol cyfrwng Cymraeg sydd ar gael yn y ddinas.

Mae swyddogion yn monitro cyfraddau genedigaethau, y cynnyrch o dai arfaethedig, a'r patrymau defnydd o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn yr oedran cynradd ac uwchradd, gyda golwg ar gyflwyno cynlluniau priodol i ateb unrhyw alw cynyddol.

## Materion Cydraddoldeb:

Cynhaliwyd Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb cychwynnol. Daeth yr asesiad i'r casgliad na fyddai'r cynnig hwn yn cael effaith andwyol ar unrhyw grŵp penodol mewn cymdeithas. Bydd yr asesiad yn cael ei adolygu ar ôl ymgynghori.

Bydd y cynnig yn cael effaith gadarnhaol yn yr ystyr y caiff plant Caerdydd gyfle i gyflawni eu llawn botensial drwy hyrwyddo a gwella mynediad i addysg yn y ddinas, gan roi'r cychwyn gorau i blant trwy ddarparu gwell profiad i blant sy'n mynd i ysgol uwchradd am y tro cyntaf. Bydd hyn o ganlyniad i staff yr ysgol yn gallu macsimeiddio effeithlonrwydd y broses dderbyn i ddarparu cychwyn mwy effeithiol i blant, i’w galluogi i wireddu eu potensial llawn yn gynt yn hytrach na hwyrach.

Bydd y Cyngor (yr Awdurdod Derbyn i Ysgolion Cymunedol) a Chyrff Llywodraethu (yr Awdurdod Derbyn i Ysgolion Gwirfoddol a Gynorthwyir a Sefydledig) yn parhau i gryfhau eu partneriaeth wrth gyflenwi canlyniadau cadarnhaol i'r ddinas a'i dinasyddion; gan weithio ar y cyd gydag agenda a rennir i gyflawni arbedion cost ac effeithlonrwydd sylweddol.

Mae'r broses ymgynghori yn cydymffurfio â Chod Derbyn i Ysgolion Llywodraeth Cymru, a fwriedir i ymgysylltu rhanddeiliaid â safbwyntiau a gyflwynwyd fel rhan o'r broses benderfynu sy’n benodol i’r newid arfaethedig.

## Ystyried Effaith ar y Gymuned:

Mae angen system decach, fwy cyfiawn o ddyrannu lleoedd mewn ysgolion yng Nghaerdydd, heb effeithio'n andwyol ar y gymuned. Barn y Cyngor yw bod y cynnig hwn yn annhebygol o gael effaith negyddol ar unrhyw gymuned yng Nghaerdydd. Byddai'r swyddogion yn gweithio gydag unrhyw grŵp cymunedol i sicrhau bod y cynnig yn osgoi effeithiau negyddol lle bynnag y bo'n bosibl.

Yr ysgolion sy’n destun i’r cynnig hwn yw ysgolion presennol sy'n cynnig ystod o weithgareddau ar ôl ysgol ac a all fod â mudiadau cymunedol sy'n cynnig gwasanaethau o'r cyfleusterau ysgol. Ni ragwelir y byddai effaith negyddol ar unrhyw un o'r gweithgareddau hyn.

## Beth sy’n Digwydd Nesaf?

### Cyfnod ymgynghori: 5 Rhagfyr 2016 – 23 Ionawr 2017

Gweler tudalen 3 am ragor o fanylion am sut i ymateb a mynegi eich barn.

Bydd yr adborth gan ymgynghoreion yn cael ei gasglu, gyda materion yn cael eu crynhoi, ac ymatebion y Cyngor. Bydd hyn yn ffurfio rhan o'r Adroddiad Ymgynghori Trefniadau Derbyn, a fydd yn cael ei gyhoeddi ar wefan Cyngor Dinas Caerdydd i bawb ei weld cyn iddo gael ei ystyried gan Gabinet y Cyngor. Gellir cael copïau caled o'r adroddiad ar gais drwy ddefnyddio'r manylion cyswllt yn y ddogfen hon.

### Penderfynu ar y Cynnig a Hysbysu’r Penderfyniad:

Bydd Cabinet Cyngor Dinas Caerdydd yn ystyried yr Adroddiad Ymgynghori Trefniadau Derbyn yn ei gyfarfod ym mis Mawrth 2017, ac yn penderfynu p'un a ddylid bwrw ymlaen â'r cynnig ai peidio. Ar ôl penderfynu ar y cynnig, bydd pawb sydd â diddordeb yn cael gwybod am y penderfyniad, a fydd yn cael ei gyhoeddi yn electronig ar wefan Cyngor Dinas Caerdydd.

**FFURFLEN YMATEB I'R YMGYNGHORIAD**
**(Trefniadau Derbyniadau Ysgol Uwchradd Cydgysylltiedig Arfaethedig)**

Mae eich barn yn bwysig; dywedwch wrthym beth yw eich barn am y cynnig drwy:

- Gwblhau a dychwelyd yr holiadur hwn i'r cyfeiriad a roddir ar waelod y ffurflen, neu
- Gwblhau'r ffurflen ymateb ar-lein yn www.caerdydd.gov.uk/trefniadauderbyn neu;
- E-bostio eich sylwadau i: ymatebionysgol@caerdydd.gov.uk

**Nodwch fod yn rhaid i bob sylw a anfonir yn ysgrifenedig neu drwy e-bost gynnwys enw llawn a chyfeiriad post llawn yr unigolyn sy'n cyflwyno'r sylwadau.**

**Y dyddiad cau ar gyfer ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yw 23 Ionawr 2017. Yn anffodus ni fydd y Cyngor yn ystyried ymatebion ar ôl y dyddiad hwn.**

Caiff ymatebion a ddaw i law gan ymgynghoreion eu hystyried yn rhan o'r adroddiad Ymgynghoriad ar Drefniadau Derbyn.

Gellir gofyn am unrhyw ymatebion a dderbyniwyd o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth ac efallai y bydd rhaid eu gwneud yn gyhoeddus, fodd bynnag, byddai unrhyw wybodaeth a fyddai'n adnabod unigolyn megis enw, cyfeiriad e-bost neu gyfeiriad yn cael ei dileu.

A ydych yn cefnogi'r cynnig i sicrhau trefniadau derbyniadau ysgolion uwchradd cydgysylltiedig ar gyfer grŵp oedran Blwyddyn 7?

Ydw ☐ Nac ydw ☐

Os nad ydych yn cefnogi'r cynnig, rhowch eich rhesymau ynghyd ag unrhyw newidiadau neu ddewisiadau eraill yr hoffech eu hawgrymu.

| |
|---|
| |

A ydych yn dymuno gwneud unrhyw sylwadau eraill?

| |
|---|
| |

Enw: ………………………………………………………………………………….

Cyfeiriad: ………………………………………………………………………………

……………………………………………………………………………………………..

Cod post: ………………………………………………………………………………

Cyfeiriad e-bost: ………………………………………………………………………

Dyddiad: ……………………………………………………………………………………

Eich statws: Llywodraethwr ☐

Rhiant ☐

Disgybl ☐

Staff ☐

Arall (nodwch) …………………………………………………

Os yn Ddisgybl/Rhiant, ym mha grŵp blwyddyn ydych chi/eich plentyn ar hyn o bryd?

………………….

Diolch am eich sylwadau.

Ticiwch y blwch isod os ydych am gael eich hysbysu o gyhoeddi'r adroddiad ymgynghori:

☐

Dychwelwch y ffurflen hon i gyrraedd erbyn23 Ionawr 2017 i:
Tîm Cynllunio Trefniadaeth Ysgolion
Ystafell 422
Neuadd y Sir
Glanfa Iwerydd
Caerdydd
CF10 4UW